OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 Rhif 729 (Cy. 135)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019

Gwnaed	*27 Mawrth 2019*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 1 Ebrill 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 1 Ebrill 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A458 yr Amwythig i Ddolgellau.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 2 a 3 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

7. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Mawrth 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Church Street, y Trallwng, sy'n ymestyn o ben deheuol yr ynys hollti ganolog wrth ei chyffordd â Mill Lane hyd at ben gogleddol yr ynys hollti wrth ei chyffordd â Brook Street.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Church Bank, y Trallwng, sy'n ymestyn o ben gogleddol yr ynys hollti wrth gyffordd Brook Street/Church Street hyd at ganolbwynt cyffordd Red Bank/Salop Road.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Salop Road, y Trallwng, sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Red Bank hyd at bwynt dwyreiniol yr ynys hollti wrth ei chyffordd â Mill Lane.